

**GORCHYMYN SIR BENFRO (FFYRDD AMRYWIOL) (FFYRDD CYFYNGEDIG A'R
TERFYN CYFLYMDER 30MYA) (DIWYGIAD RHIF 2) 2020**
Datganiad o'r Rhesymau

Mae'r datblygiad preswyl yn Hwlfordd wedi ymestyn i'r gorllewin ar hyd Scarrowscant Lane at y gyffordd â Bethany Hill. Mae ymestyn y terfyn cyflymder 30mya yn cyd-fynd â maint y datblygiad.

**GORCHYMYN SIR BENFRO (FFYRDD AMRYWIOL) (FFYRDD CYFYNGEDIG A'R
TERFYN CYFLYMDER 30MYA) (DIWYGIAD RHIF 2) 2020**

Rhoddir **HYSBYSIAD** drwy hyn bod Cyngor Sir Penfro yn bwriadu cyflwyno Gorchymyn o dan Adrannau 82, 83 ac 84 a rhan IV o Atodlen 9 i Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 ("y Ddeddf"), a fydd yn diwygio 'Gorchymyn Sir Benfro (Ffyrdd Amrywiol) (Ffyrdd Cyfyngedig a'r Terfyn Cyflymder 30mya) 2017' fel yn Atodlen 2 y bydd y canlynol yn berthnasol:

Atodlen 2 - Terfyn Cyflymder 30mya

1. Yn Atodlen 2, nodwch:

2.14.0	Hwlfordd		
	Scarrowscant Lane		O bwynt gyda'r gyffordd â Glenover Park i'r gorllewin am 170m.

Noder – mae'r cynnig yn bwriadu ymestyn y terfyn cyflymder presennol 30mya yn Hwlfordd i'r gorllewin ar Scarrowscant Lane heibio'r eiddo olaf.

Ceir manylion llawn am y cynigion yn y Gorchymyn drafft, y gellir edrych arno, ynghyd â map yn dangos hyd y ffyrdd yr effeithir amynt, yn:

<https://www.sir-benfro.gov.uk/rheoleiddio-traffig-ffyrdd>

Dylai unrhyw unigolyn sy'n dymuno gwrthwynebu'r Gorchymyn arfaethedig anfon datganiad ysgrifenedig sy'n nodi ar ba sail y gwneir y gwrthwynebiad at yr unigolyn sydd â'i enw isod erbyn 16 Rhagfyr 2020.



Wedi'i ddyddio ar y 25ain diwrnod hwn o Dachwedd 2020

Darren Thomas
Pennaeth Seilwaith
Cyngor Sir Penfro
Neuadd y Sir
Hwlfordd





Scarrowscant Lane, Haverfordwest. 30mph Extension

Map produced on: 25 November 2020

Scale (A4 Print)

1:1250



**GORCHYMYN SIR BENFRO (FFYRDD AMRYWIOL) (FFYRDD CYFYNGEDIG
A'R TERFYN CYFLYMDER 30MYA) (DIWYGIAD RHIF 2) 2020**

Mae Cyngor Sir Penfro (y cyfeirir ato yma wedi hyn fel "y Cyngor") wrth arfer ei bwerau o dan Adrannau 82, 83 ac 84 a rhan IV o Atodlen 9 i Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 ("y Ddeddf"), a'r holl bwerau galluogi eraill, ac yn dilyn ymgynghoriad gyda Phrif Swyddog yr Heddlu yn unol â rhan III o Atodlen 9 i'r Ddeddf, yn gwneud y Gorchymyn canlynol:-

1. Bydd Gorchymyn Sir Benfro (Ffyrdd Amrywiol) (Ffyrdd Cyfyngedig a'r Terfyn Cyflymder 30mya) 2017' yn weithredol fel yn Atodlen 2 y bydd y canlynol yn berthnasol:

Atodlen 2 - Terfyn Cyflymder 30mya

1. Yn Atodlen 2, nodwch:

2.14.0	Hwlfordd		
	Scarrowscant Lane		O bwynt gyda'r gyffordd â Glenover Park i'r gorllewin am 170m.

2. Gellir cyfeirio at y Gorchymyn hwn fel 'Gorchymyn Sir Benfro (Ffyrdd Amrywiol) (Ffyrdd Cyfyngedig a'r Terfyn Cyflymder 30mya) (Diwygiad Rhif 2) 2020' a daw i rym ar y 5ed diwrnod o Ionawr Dwy Fil ac Un ar Hugain.

RHODDIR o dan Sêl Gyffredin Cyngor Sir Penfro ar y 4ydd diwrnod hwn o Ionawr, Dwy fil ac Un ar Hugain.

At hyn gosodwyd **SÊL GYFFREDIN**
CYNGOR SIR PENFRO
ym mhresenoldeb:-

Llofnodwr Awdurdodedig